Bwrdd Gweithredol Tŷ'r Cwmnïau – cofnodion cryno – 25 Chwefror 2009

Cynllun Busnes 2009/10
Cyflwynwyd drafft cyntaf y cynllun busnes ar gyfer 2009 / 10 i'r cyfarfod. Roedd y Bwrdd Llywio eisoes wedi adolygu'r cynllun, a byddai'n cael ei drafod gyda'n Gweinidog ar 10 Mawrth, ac ar ôl hynny, byddai'r targedau cyhoeddus yn cael eu gosod gerbron y Senedd.

Adolygiad Ffurfiol o'r Archwaeth Risg ar gyfer y Cynllun Busnes
Bu'r Bwrdd yn adolygu ei archwaeth risg er mwyn ystyried a oedd y meini prawf yn parhau i fod yn berthnasol ar gyfer gweddill y flwyddyn ac ar gyfer 2009 / 2010.

Rhaglen Deddf Cwmnïau - Diweddariad
Yn gyffredinol, roedd statws y rhaglen yn parhau i fod yn Ambr / Gwyrdd. Roedd y rhaglen ar y trywydd iawn a byddai carreg filltir bwysig yn cael ei chymeradwyo wythnos nesaf.

Ailstrwythuro a Thrawsnewid Gwasanaethau (STAR) – Diweddariad
Rhoddwyd diweddariad i'r Bwrdd ynghylch y cynnydd. Gofynnwyd i'r Bwrdd gytuno ar gwmpas rhaglen diwygiedig er mwyn sicrhau bod modd diffinio budd eglur a phwynt terfynol, a'r prif nod oedd y dylai STAR ganolbwyntio ar alluogi electronig y gwasanaethau mewnbynnu. Cytunwyd y byddai unrhyw waith ailstrwythuro sylweddol y tu allan i gwmpas y rhaglen.

Diweddariad am y Bwrdd Busnes Asiantaeth (ABB) a Cherdyn Sgorio Busnes
Darparwyd diweddariad misol i'r Bwrdd gan ABB.
Yr uchafbwyntiau oedd, roedd argaeledd y gwasanaeth trwy gydol mis Ionawr wedi bod yn rhagorol, sef 100% ac roedd y lefelau cydymffurfio yn parhau i fod yn gryf, ac roedd 64,000 set o gyfrifon wedi cael eu ffeilio erbyn diwedd mis Ionawr.

Adolygiad o Risgiau Hollbwysig y Bwrdd Gweithredol
Bu'r aelodau yn adolygu'r gofrestr risgiau gyfredol, gan gytuno i newid statws rhai o'r risgiau a restrir. Cytunwyd y byddai risg STAR yn lleihau ac y byddai'r risg Newidiadau Gorfodi yn cael ei waredu am y tro.

Adolygiad o Gyfarfod y Bwrdd Llywio ar 23 Chwefror
Roedd yr aelodau yn cytuno bod y trafodaethau ynghylch y cynllun busnes wedi bod yn adeiladol, ac y gwnaethpwyd rhai awgrymiadau da. Yn ogystal, aeth aelodau'r Bwrdd Llywio ati i gymeradwyo'r dull gweithredu a awgrymwyd o ran Adroddiad Blynyddol 2008 / 09 yr asiantaeth.

Ysgrifenyddiaeth Tŷ'r Cwmnïau
Chwefror 2009